Cadeirydd y Cyngor
Chairman of the Council

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau
Y Canghellor
Arweinydd y Blaid yn y Llywodraeth
Eu cymheiriaid ym mhob plaid wleidyddol wrthblaid yn y Senedd
Prif Weinidog Cymru
Holl ASau Gwynedd

12 Mai, 2021

Hoffwn ddwyn eich sylw at y cynnig isod a fabwysiadwyd mewn cyfarfod diweddar o Gyngor Gwynedd:-

“Bod y Cyngor hwn:

a) yn credu bod y system fudd-daliadau gyfredol yn methu ein dinasyddion ac yn achosi caledi i lawer o gymunedau yng Ngwynedd;

b) yn nodi'r cysyniad o Incwm Sylfaenol Cyffredinol (UBI) lle mae dinasyddion yn derbyn swm heb fod yn seiliedig ar brofion modd gan y wladwriaeth i dalu costau byw sylfaenol, a delir i'r holl ddinasyddion yn unigol, waeth beth yw eu statws cyflogaeth, eu cyfoeth, neu statws priodasol;

c) yn credu bod angen profi UBI, gan fod gan UBI y potensial i fynd i'r afael â heriau allweddol megis adferiad ôl-bandemig, anghydraddoldeb, tlodi, cyflogaeth ansicr, a cholli cymuned trwy:

i) rhoi gweithlu mwy hyblyg i gyflogwyr wrth roi mwy o ryddid i weithwyr newid eu swydd;

ii) gwerthfawrogi gwaith di-dâl, megis gofalu am aelodau'r teulu a gwaith gwirfoddol;

iii) cael gwared ar effeithiau negyddol sancsiynau budd-daliadau ac amodoldeb;

iv) rhoi mwy o adnoddau cyfartal i bobl yn y teulu, y gweithle a'r gymdeithas.

ch) yn nodi gwaith Rhwydwaith Lab UBI wrth ddatblygu cynigion i beilota profi UBI;

d) yn credu na ddylid mesur llwyddiant peilot UBI yn unig yn ôl yr effaith ar y nifer sy'n manteisio ar waith â thâl, ond hefyd yr effaith ar gymunedau a'r hyn y mae'r bobl ynddynt yn ei wneud, sut maen nhw'n teimlo, a sut maen nhw'n uniaethu ag eraill a’r amgylchedd o'u cwmpas;

dd) yn credu bod Gwynedd mewn sefyllfa ddelfrydol i dreialu UBI;

Swyddfa’r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.cymru

e) yn gofyn i’r Cabinet ymchwilio i’r ymrwymiad fyddai ei angen ac ystyried a ddylid gwirfoddoli i gydweithio gyda chyrff megis UBI Lab Cymru;

f) yn penderfynu anfon copi o'r Cynnig hwn at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, y Canghellor, arweinydd y Blaid yn y Llywodraeth, eu cymheiriaid ym mhob plaid wleidyddol wrthblaid yn y Senedd, Prif Weinidog Cymru ac at holl ASau Gwynedd.”

Gan hynny, dymuna’r Cyngor hwn ddwyn pwysau ar Lywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru i weld newid sydd o fudd i bawb, ac sy’n gosod cyfleoedd cyfartal i’n trigolion.

Yn gywir,